# Cynigion a Gwelliannau i’w Trafod ar 14 Chwefror 2007

# Cynigion a gyflwynwyd ar 7 Chwefror 2007

**Dadl Fer**

**NDM3467 Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr):** Dyfodol i DANSCO

**NDM3457 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn ystyried egwyddor Gorchymyn y Pwyllgor Cyflogau Amaethyddol (Cymru) 2007, y gosodwyd copi ohono yn y Swyddfa Gyflwyno ar 23 Ionawr 2007.

**NDM3458 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau’r Cynulliad ar 6 Chwefror 2007 ynghylch y gorchymyn drafft, Gorchymyn y Pwyllgor Cyflogau Amaethyddol (Cymru) 2007; a

2. Yn cymeradwyo bod y gorchymyn drafft, Gorchymyn y Pwyllgor Cyflogau Amaethyddol (Cymru) 2007 yn cael ei wneud yn unol ag:

a) y drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 23 Ionawr 2007; a

b) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 23 Ionawr 2007.

**NDM3468 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn ystyried egwyddor Rheoliadau Comisiynydd Pobl Hyn Cymru (Penodi) 2007 y gosodwyd copi ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ar 16 Ionawr 2007.

**NDM3469 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 30 Ionawr 2007 ynghylch y rheoliadau drafft, Rheoliadau Comisiynydd Pobl Hyn Cymru (Penodi) 2007; a

2. Yn cymeradwyo bod y rheoliadau drafft, Rheoliadau Comisiynydd Pobl Hyn Cymru (Penodi) 2007 yn cael eu gwneud yn unol ag:

a) y drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 16 Ionawr 2007; a

b) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 16 Ionawr 2007.

**NDM3470 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn ystyried egwyddor Rheoliadau Comisiynydd Pobl Hyn Cymru 2007 y gosodwyd copi ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ar 16 Ionawr 2007.

**NDM3471 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 30 Ionawr 2007 ynghylch y rheoliadau drafft, Rheoliadau Comisiynydd Pobl Hyn Cymru 2007; a

2. Yn cymeradwyo bod y rheoliadau drafft, Rheoliadau Comisiynydd Pobl Hyn Cymru 2007 yn cael eu gwneud yn unol ag:

a) y drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 16 Ionawr 2007; a

b) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 16 Ionawr 2007.

**NDM3472 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn ystyried egwyddor Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Amgen) (Cymru) 2007 y gosodwyd copi ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ar 23 Ionawr 2007.

**NDM3473 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 6 Chwefror 2007 ynghylch y rheoliadau drafft, Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Amgen) (Cymru) 2007; a

2. Yn cymeradwyo bod y rheoliadau drafft, Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Amgen) (Cymru) 2007, yn cael eu gwneud yn unol ag:

a) y drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 23 Ionawr 2007; a

b) y Memorandwm Cywiriadau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 6 Chwefror 2007; ac

c) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 23 Ionawr 2007.

**NDM3474 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn ystyried egwyddor Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Swyddogaethau a Chyfrifoldebau) (Cymru) 2007 y gosodwyd copi ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ar 23 Ionawr 2007.

**NDM3475 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 6 Chwefror 2007 ynghylch y rheoliadau drafft, Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Swyddogaethau a Chyfrifoldebau) (Cymru) 2007; a

2. Yn cymeradwyo bod y rheoliadau drafft, Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Swyddogaethau a Chyfrifoldebau) (Cymru) 2007, yn cael eu gwneud yn unol ag:

a) y drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 23 Ionawr 2007; a

b) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 23 Ionawr 2007

**NDM3463 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu’n unol â Rheol Sefydlog 25.13:

Yn cymeradwyo’r gorchymyn drafft, The Adventure Activities (Licensing) (Designation) Order 2007 [copi Saesneg yn unig] y gosodwyd copi ohono yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau’r Cynulliad ar 6 Chwefror 2007; ac yn nodi Memorandwm Esboniadol y

Gorchymyn hwn a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau’r Cynulliad ar 6 Chwefror 2006.

**NDM3464 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu’n unol â Rheol Sefydlog 25.13:

Yn cymeradwyo’r rheoliadau drafft, The Adventure Activities (Licensing (Amendment) [copi Saesneg yn unig] Regulations 2007 y gosodwyd copi ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau’r Cynulliad ar 6 Chwefror 2007; ac yn nodi Memorandwm Esboniadol y Gorchymyn hwn a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau’r Cynulliad ar 6 Chwefror 2006.

**NDM3476 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu dan adran 62 (1) (b) Deddf Llywodraeth Cymru 1998, yn penderfynu dirprwyo i Brif Weinidog y Cynulliad holl swyddogaethau hynny’r Cynulliad Cenedlaethol a gynhwysir dan Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995 (fel y’i diwygiwyd) nad ydynt eisoes wedi eu dirprwyo (sef adrannau 31AF Pennod 2A (2), 49D(6) a pharagraffau 4 (1B), 8(4), 11 (1B) a 15 (1B) Atodlen 3).

Ni fydd dim yn y cynnig yn lleihau goruchafiaeth awdurdod y Cynulliad llawn nac yn lleihau rôl Pwyllgorau’r Cynulliad wrth arfer y swyddogaethau uchod.

Gwneir y dirprwyo hwn ar y ddealltwriaeth y dirprwyir y swyddogaethau hynny ymhellach, fel y bo’n briodol, i’r Gweinidog Cynulliad priodol ac i staff.

*Gellir canfod copi o Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995 (fel y’i diwygiwyd) ar y rhyngrwyd drwy ddilyn y ddolen gysylltiedig:*
http://www.drc-gb.org/the_law/legislation__codes__regulation/dda_and_related_statutes.aspx

**NDM3477 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu’n unol â Rheol Sefydlog 26, yn caniatáu i’r Ysgrifennydd Gwladol wneud y Disability Discrimination (Public Authorities) (Statutory Duties) Regulations 2007 [copi Saesneg yn unig], a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 6 Chwefror 2007.

*Mae priodoldeb y Gorchymyn yng Nghymru yn amodol ar gydsyniad Cynulliad Cenedlaethol Cymru.*

*Gosodwyd y Memorandwm Esboniadol yn y Swyddfa Gyflwyno ar 6 Chwefror 2007.*

**NDM3478 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Dan Adran 88B Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988, ac yn unol â Rheol Sefydlog 21.10, yn cymeradwyo Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) Adroddiad Grant Arbennig am y Gronfa Datblygu Rheoli Perfformiad y Gwasanaethau Cymdeithasol (Cymru) 2007, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 6 Chwefror 2007.

**NDM3479 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Rwy'n cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu dan adran 62(1) (b) Deddf Llywodraeth Cymru 1998, yn penderfynu dirprwyo swyddogaethau'r Cynulliad Cenedlaethol a gynhwysir yn Adran 156 Deddf Amddiffyn yr Amgylchedd 1990 ac adrannau 1 a 3 Deddf Cyfrifiad 1920 i Brif Weinidog y Cynulliad, ac eithrio'r rhai na ellir, yn ôl y gyfraith, eu dirprwyo yn y modd hwnnw:

Ni fydd dim yn y cynnig yn lleihau goruchafiaeth awdurdod y Cynulliad llawn nac yn lleihau rôl Pwyllgorau'r Cynulliad wrth arfer y swyddogaethau uchod.

Gwneir y dirprwyo hwn ar y ddealltwriaeth y dirprwyir y swyddogaethau hynny ymhellach, fel y bo'n briodol, i'r Gweinidog Cynulliad priodol ac i staff.

*Gellir canfod copi o Ddeddf Amddiffyn yr Amgylchedd 1990 ar y rhyngrwyd drwy ddilyn y ddolen gysylltiedig [http://www.opsi.gov.uk/acts/acts1990/Ukpga_19900043_en_1.htm](http://www.opsi.gov.uk/acts/acts1990/Ukpga_19900043_en_1.htm)*

*Gellir canfod copi o Ddeddf Cyfrifiad 1920 ar y rhyngrwyd drwy ddilyn y ddolen gysylltiedig:*

*[http://www.statistics.gov.uk/census2001/pdfs/censusact1920.pdf](http://www.statistics.gov.uk/census2001/pdfs/censusact1920.pdf)*

**NDM3480 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Gan weithredu'n unol ag adran 62 (1) (b) Deddf Llywodraeth Cymru 1998, yn penderfynu dirprwyo holl swyddogaethau'r Cynulliad Cenedlaethol a gynhwysir yn a than Rheoliadau Cronfeydd Strwythurol (Cynulliad Cenedlaethol Cymru) 2006 (Offeryn Statudol Rhif 2006/3282) i Brif Weinidog y Cynulliad, ac eithrio'r rhai na ellir, yn ôl y gyfraith, eu dirprwyo yn y modd hwnnw.

Ni fydd dim yn y cynnig hwn yn lleihau goruchafiaeth awdurdod y Cynulliad llawn nac yn lleihau rôl Pwyllgorau'r Cynulliad wrth arfer y swyddogaethau uchod.

Gwneir y dirprwyo hwn ar y ddealltwriaeth y dirprwyir y swyddogaethau hynny a ddirprwyir i'r Prif Weinidog ymhellach, fel y bo'n briodol, i'r Gweinidogion Cynulliad priodol ac i staff.

*Dogfennau Cefnogi*

*Gellir canfod Rheoliadau Cronfeydd Strwythurol (Cynulliad Cenedlaethol Cymru) 2006 ar y Rhyngrwyd drwy ddilyn y ddolen gysylltiedig:*

*http://www.opsi.gov.uk/si/si2006/20063282.htm*

*Gellir canfod nodiadau esboniadol Rheoliadau Cronfeydd Strwythurol (Cynulliad Cenedlaethol Cymru) 2006 ar y rhyngrwyd drwy ddilyn y ddolen gysylltiedig:*

*http://www.opsi.gov.uk/si/em2006/uksiem_20063282_en.pdf*

*Gellir canfod Rheoliad Cronfeydd Strwythurol 2006 (Rheoliad Cyngor (EC) Rhif 1083/2006) ar y Rhyngrwyd drwy ddilyn y ddolen gysylltiedig:*

*http://ec.europa.eu/regional_policy/sources/docoffic/official/regulation/pdf/2007/general/ce_1083(2006)_en.pdf*

*Gellir canfod Rheoliad Cronfa Datblygu Rhanbarthau Ewrop 2006 (Rheoliad Cyngor (EC) Rhif 1080/2006) Senedd Ewrop a'r Cyngor ar 05 Gorffennaf 2006) ar y Rhyngrwyd drwy ddilyn y ddolen gysylltiedig:*

*http://ec.europa.eu/regional_policy/sources/docoffic/official/regulation/pdf/2007/feder/ce_1080(2006)_en.pdf*

## Gwelliannau a gyflwynwyd ar 08 Chwefror 2007

Cynnig bod y Cynulliad yn penderfynu mabwysiadu'r gwelliannau isod i gynigion:

**NDM3472**

**Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn credu y dylai awdurdodau lleol fod yn gallu mabwysiadu 'trefniadau amgen' trwy bleidlais dau draean o'r cyngor llawn, yn lle'r bleidlais unfrydol sydd ei hangen ar hyn o bryd.